

Arolygiad Dilynol o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Gofal Sylfaenol Alfred
Street, Castell-nedd / Bwrdd Iechyd
Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad arolygu: 9 Medi 2019

Dyddiad cyhoeddi: 10 Rhagfyr 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	19
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	29
4.	Beth nesaf?	34
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol	35
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	36
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	37
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	38

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Gofal Sylfaenol Alfred Street, Castell-nedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 9 Medi 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri o arolygwyr AGIC, un adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol ac un adolygydd cymheiriaid rheolwr practis. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd dystiolaeth glir bod y practis wedi gwneud ymdrechion sylweddol i wella'r gwasanaeth a ddarperir a rhoi'r gwelliannau sydd eu hangen ar waith o'r arolygiad blaenorol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Cafodd y rhan fwyaf o'r gwelliannau yr oedd eu hangen o'r arolygiad blaenorol eu rhoi ar waith neu maent ar fin cael eu cwblhau
- Yn ystod ein hymweliad, gwelsom y staff yn y practis yn trin y cleifion mewn ffordd gwrtais, urddasol a phroffesiynol
- Roedd y practis yn cael ei redeg yn dda gan reolwr y practis a oedd yn gyfrifol am reoli'r holl weithgareddau anghlinigol
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn gweithio yn y practis ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn i gyflawni eu rolau perthnasol
- Roedd tîm y practis yn benderfynol o ddarparu gwasanaethau o ansawdd i'r cleifion ac yn ymrwymedig i wneud hynny.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarau'r wefan
- Darparu mwy o wybodaeth yn y daflen wybodaeth i gleifion, gan gynnwys gwybodaeth am wasanaethau y tu allan i oriau ac amseroedd y clinig.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Cwblhawyd yr arolygiad diwethaf o Ganolfan Gofal Sylfaenol Alfred Street, Castell-nedd ar 21 Ionawr 2019.

Roedd y meysydd allweddol i'w gwella a nodwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhau bod gan y practis y cyfarpar dadebru brys, meddyginiaeth a'r hyfforddiant sy'n ofynnol gan y Cyngor Dadebru¹, a godwyd fel rhan o'n proses sicrwydd uniongyrchol oherwydd y pryder uniongychol am ddiogelwch y cleifion
- Sicrhau bod y cleifion yn derbyn gofal ag urddas drwy ddarparu llen urddas
- Manylion am hebrwng
- Cyfathrebu gan gynnwys y wefan, taflen wybodaeth i gleifion a phroses Gweithio i Wella GIG Cymru²
- Gwrando a dysgu o adborth
- Darparu cyfleusterau sychu dwylo a gel saniteiddio ar gyfer y dwylo
- Rheoli meddyginiaethau yn ymwneud â phresgripsiynau a'r broses o archwilio presgripsiynau
- Hyfforddiant gan gynnwys diogelu a llywodraethu gwybodaeth ar gyfer y staff
- Cofnodi hyfforddiant gorfodol.

¹ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-quality-standards-for-cpr>

² <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

Diben yr arolygiad hwn oedd cynnal arolygiad dilynol o'r gwelliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf.

Casglwyd barn y cleifion hefyd a gwnaethom adolygu agweddau eraill ar y gofal fel y disgrifir yn yr adrannau perthnasol drwy gydol yr adroddiad.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn gadarnhaol am y gofal roeddent yn ei gael gan y practis.

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom y staff yn y practis yn trin y cleifion mewn ffordd gwrtais, urddasol a phroffesiynol.

Cafodd y rhan fwyaf o'r gwelliannau yr oedd eu hangen o'r arolygiad blaenorol eu rhoi ar waith, er bod angen gwneud mwy o waith ar rai ohonynt i'w cwblhau'n llawn.

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Gofal gydag Urddas

Roedd yn ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Caiff llen urddas newydd ei rhoi o gwmpas y gwely archwilio, a gwelyau archwilio eraill os yw'n berthnasol
- Bydd pob claf yn ymwybodol bod modd iddo gael hebryngwr os oes angen, cyn iddo gael ymgynghoriad
- Bod gwybodaeth am hebryngwyr yn cael ei harddangos yn glir i bob claf ei gweld yn yr ardal aros a'r ystafelloedd ymgynghori/triniaeth.

Gwybodaeth i Gleifion

Roedd yn ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod y practis yn cyfathrebu'n ffurfiol â'r bwrdd iechyd lleol am y wefan bresennol, er mwyn sicrhau bod y manylion a ddarperir ar gyfer y practis yn cael eu dileu, er mwyn osgoi rhoi gwybodaeth anghywir i gleifion.
- Bod y daflen wybodaeth i gleifion wedi'i hadolygu i sicrhau ei bod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a defnyddiol am y practis gan gynnwys y gwasanaethau a gynigir, proses cwynion Gweithio i Wella a gwybodaeth gyfredol am y rheoliad cyffredinol ar ddiogelu data³
- Bydd pob claf yn ymwybodol o'r broses Gweithio i Wella drwy arddangos y wybodaeth hon yn briodol yn y practis
- Bod taflenni gwybodaeth am Gweithio i Wella ar gael yn gyfleus i'r cleifion eu darllen a mynd â nhw adref gyda nhw
- Bydd y polisi cydsyniad cleifion yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau.

Cyfathrebu'n Effeithiol

Roedd yn ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Mae dolen sain sy'n gweithio ar gael yn y practis er budd cleifion ac ymwelwyr
- Mae arwyddion wedi'u gosod i gyfeirio cleifion i'r ystafelloedd ymgynghori a'r cyfleusterau eraill.

Gwranddo ar Adborth a Dysgu Ohono

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerir i sicrhau bod system yn cael ei datblygu i gofnodi pryderon llafar gan gleifion neu eu perthnasau/gofalwyr, a'r ymateb iddynt, yn unol â phroses Gweithio i Wella.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

³<https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/>

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 25 Mawrth 2019:

Gofal gydag Urddas

- Prynwyd sgrin urddas cludadwy newydd ac fe'i rhoddwyd ar waith
- Bydd y neges ar y ffôn yn cael ei newid i roi gwybod i gleifion bod modd cael hebryngwyr
- Bydd poster gwybodaeth i gleifion yn cael ei arddangos yn yr ystafell aros ac yn yr ystafelloedd clinigol.

Profiad y claf

- Mae'r practis wedi cyfathrebu'n ffurfiol dros e-bost â'r tîm gofal sylfaenol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe erbyn hyn), i addasu gwefan y GIG
- Mae taflen wybodaeth y practis wedi'i diweddarau ac erbyn hyn mae'n cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir, proses gwyno Gweithio i Wella ac o ble y gellir cael gwybodaeth bellach ac amlinelliad cryno o wybodaeth GDPR
- Mae'r daflen wybodaeth ar y broses Gweithio i Wella wedi'i symud o'r tu ôl i ddesg y dderbynfa i'r brif ardal. Anfonwyd e-bost hefyd i sicrhau bod staff y dderbynfa yn ymwybodol bod yn rhaid iddynt sicrhau bod digon o'r taflenni ar gael i'r cleifion yn yr ardaloedd aros bob wythnos
- Mae ein polisi cydsyniad presennol gyda'n swyddog diogelu data yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i'w adolygu a'i ddiweddarau'n briodol.

Cyfathrebu'n Effeithiol

Mae'r practis wedi bod yn gweithio gyda'r rheolwr ystadau o'r Bwrdd Iechyd Lleol ar y gwaith o osod arwyddion a dolenni sain ac mae contractwr wedi'i gyflogi.

Gwrando ar Adborth a Dysgu Ohono

Mae gan y practis ddogfen fyw i gofnodi pryderon ac mae gan bob aelod o'r staff fynediad ati. Bydd y partneriaid, arweinwyr tîm a rheolwr y practis yn cael eu hysbysu drwy neges e-bost a hysbysiad ar unwaith pan fydd pryder neu

gŵyn newydd yn dod i law. Mae'r ddogfen hefyd yn ei gwneud yn bosibl i olrhain y cwynion er mwyn i adborth cyfredol gael ei roi i'r claf yn ôl y gofyn.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Gofal gydag Urddas

Gwelsom y sgrin urddas cludadwy yn un o'r ystafelloedd triniaeth. Gellid cau'r llen urddas yn llawn yn yr ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth eraill. Y Bwrdd Iechyd sy'n berchen ar safle'r practis a rhaid i'r adran ystadau awdurdodi a chwblhau unrhyw newidiadau i adeiladwaith yr adeilad. Gofynnodd yr adran ystadau am gael gwared ar yr hen lenni neu osod rhai newydd yn eu lle, ond nid oes unrhyw gamau wedi'u cymryd hyd yma.

Gwnaethom glywed y neges ffôn ar y system ffôn a oedd yn cyfeirio at y ffaith bod gwasanaeth hebrwng ar gael. Roedd gan y practis bolisi hebryngwyr ac roedd gwybodaeth am hebryngwyr i'w gweld yn glir yn yr ardal aros a'r ystafelloedd ymgynghori, i roi gwybod i gleifion y gallent ofyn i hebryngwr fod yn gwmni iddynt. Dangosodd cofnodion yr hyfforddiant hebrwng bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant fel hebryngwyr.

Gwybodaeth i Gleifion

Gwelsom y wefan a nodwyd bod y cyfeiriadau at y bwrdd iechyd lleol wedi'u dileu. Fodd bynnag, nodwyd bod sawl eitem wedi'i nodi yn anghywir ar y wefan gan gynnwys enw nyrs y practis. Dywedwyd wrthym fod y clwstwr yn bwriadu cyhoeddi gwefannau sydd wedi'u dylunio yn unffurf ar gyfer yr holl bractisau perthnasol. Dylid cwblhau hyn o fewn mis. Rhaid i'r practis sicrhau bod y wefan bresennol yn gyfredol yn y cyfamser a bod y wefan newydd yn cael ei diweddarau'n rheolaidd.

Gwnaethom nodi bod gwybodaeth yn ymwneud â'r rheoliadau cyffredinol ar ddiogelu data a'r gwasanaethau a ddarperir wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion. Fodd bynnag, dylid cynnwys mwy o wybodaeth yn y daflen wybodaeth yn ymwneud â phroses Gweithio i Wella, codi pryder am y GIG yng Nghymru, amseroedd agor y practis a'r clinig a'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau.

Roedd gwybodaeth ar wefan y practis i hysbysu cleifion am y broses gwyno. Yn ogystal â hyn, roedd gwybodaeth i gleifion am sut i fynegi pryder i'w gweld yn glir yn yr ardal aros ac mewn perthynas â phroses Gweithio i Wella. Roedd taflenni gwybodaeth am Gweithio i Wella ar gael yn gyfleus i'r cleifion eu darllen a mynd â nhw adref gyda nhw.

Cyfathrebu'n Effeithiol

Roedd arwyddion ar gael i gyfeirio cleifion i'r ystafelloedd ymgynghori a'r cyfleusterau eraill. Yn ogystal â hyn, roedd arwyddion ar ddrysau'r ystafelloedd ymgynghori. Roedd y system alw weledol yn gweithio yn ystod ein harolygiad, roedd system alw sain ar waith ac roedd y cleifion yn cael eu galw yn ôl rhif.

Roedd dolen sain ar gael er budd y cleifion a'r ymwelwyr a chaiff ei defnyddio er mwyn helpu pobl ag anawsterau clywed i glywed yn well a chyfathrebu'n effeithiol.

Gwrando ar Adborth a Dysgu Ohono

Mae'r practis yn cofnodi'r holl bryderon ar daenlen ac roedd pob aelod o'r staff yn gallu cael gafael arni i'w diweddarau. Roedd y partneriaid sy'n feddygon teulu, arweinwyr tîm a rheolwr y practis yn cael eu hysbysu drwy neges e-bost pan oedd pryder neu gŵyn newydd yn dod i law. Mae'r daenlen hefyd yn ei gwneud yn bosibl i olrhain pryderon a chwynion er mwyn i adborth cyfredol gael ei roi i'r claf. Cawsant eu trafod yng nghyfarfodydd y practis hefyd. Roedd y cofnod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd gynhyrchiol ac roedd y practis wedi gwneud gwelliannau clir i weithdrefnau yn ogystal â gwella cymorth a morâl y staff yn seiliedig ar sylwadau'r staff y gwnaethom siarad â nhw. Caiff materion eu cofnodi'n ddiennw ar gyfer y staff cymorth.

Roedd sawl arwydd hefyd yn rhoi gwybod i gleifion am eu hawliau a'r dulliau y gallant eu defnyddio i drosglwyddo cwynion a chanmoliaeth i staff y practis.

Canfyddiadau ychwanegol

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cafwyd cyfanswm o 38 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn gleifion hirdymor yn y practis (wedi bod yn glaf ers dros ddwy flynedd).

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion sgorio'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ond roedd y cleifion yn anhapus gyda'r dull o drefnu apwyntiadau; dywedodd y mwyafrif o'r cleifion fod y gwasanaeth naill ai'n ardderchog neu'n dda iawn. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Practis hyfryd a gofalgar, mae'r derbynwyr bob amser yn barchus. Maent yn fy nhrin i a fy nheulu yn dda iawn, maent wastad yn gwneud eu

gorau. Maent bob amser yn gofyn amdanom ac yn ein croesawu â gwên"

"Mae'n wasanaeth apwyntiadau cyflym"

Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r cleifion sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Darparu apwyntiadau gyda'r nos ac ar benwythnosau"

"Drwy adael i'r cleifion weld y meddyg teulu, mae llawer gormod o ymgynghoriadau dros y ffôn lle rwyf ond am weld fy meddyg teulu mewn gwirionedd"

"Rhoi ystyriaeth i bobl sy'n gweithio nad ydynt bob amser yn gallu gadael y gwaith i ffonio i drefnu apwyntiad. Dylid sicrhau bod mwy o apwyntiadau gyda'r nos ar gael"

Cadw'n iach

Roedd gwybodaeth ar gael ar bosteri a oedd yn cael eu harddangos ar waliau'r ardal aros a'r ystafelloedd ymgynghori. Roedd hyn er mwyn helpu'r cleifion a'u gofalwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Yn ogystal, roedd nifer o daflenni hybu iechyd ar gael i ategu rhannau o'r wybodaeth a oedd wedi'i harddangos ar yr hysbysfyrddau a gallai'r cleifion ddarllen y taflenni hynny a mynd â nhw adref gyda nhw.

Roedd cyngor a gwybodaeth yn benodol i ofalwyr hefyd i'w gweld yn yr ardal aros. Roedd y practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau meddygol cyffredinol a oedd yn anelu at hybu iechyd a llesiant y cleifion.

Gofal ag urddas

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan staff y practis. Dywedodd ychydig dros hanner wrthym mai dim ond 'weithiau' y gallent weld eu dewis feddyg.

Roedd yr ystafelloedd ymgynghori a'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear ac i ffwrdd o'r ardal aros, ar hyd coridor bach. Gwelsom fod drysau'r ystafelloedd wedi'u cau yn ystod ymgynghoriadau. Roedd hyn yn helpu i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion pan oedd y meddyg teulu yn eu gweld.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau.

Fel y nodwyd yn gynharach, gellid gwella'r wefan drwy ei diweddarau i adlewyrchu'r arferion presennol. Roedd y clwstwr o feddygon teulu yng Nghastell-nedd yn y broses o ddatblygu gwefan a oedd wedi'i dylunio yn unffurf ar gyfer pob practis yn y clwstwr. Mae'r broses hon wedi bod yn mynd rhagddi ers mis Ebrill 2019. Rhoddwyd gwybod i ni gan reolwyr y practis y caiff hyn ei gyhoeddi ymhen mis. Yn y cyfamser, gwnaethom argymhell y dylid diweddarau'r wefan bresennol nes bod y wefan newydd yn cael ei chyhoeddi.

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd y practis wedi llunio taflen wybodaeth i gleifion. Roedd yn cael ei chadw yn yr ardal aros. Mae mwy o wybodaeth wedi cael ei hychwanegu ers yr arolygiad diwethaf ym mis Ionawr 2019, ond gwnaethom argymhell y dylid cynnwys mwy o wybodaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:

- Bod y wefan arfaethedig ar gyfer pob rhan o'r clwstwr yn cael ei gosod yn lle'r wefan bresennol, er mwyn sicrhau bod y manylion a ddarperir ar gyfer y practis yn gyfredol, yn gyflawn ac yn llawn gwybodaeth
- Bod taflen wybodaeth y practis i gleifion yn cael ei hadolygu ymhellach er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â Gweithio i Wella, amseroedd agor y practis a'r clinig a'r gwasanaeth y tu allan i oriau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo eu bod bob amser yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith, a bod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent yn y penderfyniadau a wneir am eu gofal.

Gwnaethom adolygu cofnodion meddygol sampl o'r cleifion. Cadarnhaodd pob cofnod claf fod gwybodaeth lafar wedi'i rhoi i'r cleifion i'w helpu i ddeall eu cyflyrau meddygol, yr ymchwiliadau cysylltiedig a'r trefniadau i reoli eu salwch neu eu cyflwr. Gwelsom hefyd fod trefniadau addas ar waith i gael cydsyniad gan y cleifion.

Gwnaethom ystyried y gweithdrefnau i olrhain a rheoli canlyniadau profion y cleifion, adroddiadau meddygol, ymchwiliadau a chanlyniadau dilynol. Yn ôl rheolwyr y practis, pan fyddai'r practis yn derbyn y rhain, cânt eu hanfon ymlaen at y meddyg teulu sydd ar ddyletswydd. Byddai'r meddyg teulu yn gwneud y sylwadau gofynnol ac yn eu hanfon ymlaen at staff y dderbynfa. Nid oedd y cleifion yn derbyn canlyniadau nes bod y meddyg teulu yn eu gweithredu.

Gofal amserol

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn fodlon iawn neu'n gymharol fodlon ar oriau agor y practis a dywedodd traean ohonynt nad oedd yn hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Pan ofynnwyd yn yr holiadur iddynt ddisgrifio eu profiad cyffredinol o drefnu apwyntiad, dywedodd ychydig dros hanner o'r cleifion ei fod yn dda.

Roedd y practis yn defnyddio proses brysbennu a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i siarad â'r claf/gofalwr, er mwyn cael disgrifiad cryno o'r problemau. Dywedwyd wrthym mai diben hyn oedd cyfeirio'r cleifion at y gwasanaeth neu'r clinigydd mwyaf priodol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal neu'r driniaeth gywir. Roedd staff y dderbynfa yn dilyn cyfres o gwestiynau clir a chynhwysfawr. Roedd y staff a oedd yn ymwneud â'r broses brysbennu wedi derbyn yr hyfforddiant priodol.

Dyweddodd y practis nad oeddent yn defnyddio negeseuon testun na Fy Iechyd Ar-lein⁴ yn dilyn pryderon yn ymwneud â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Mae nyrs y practis yn cynnal nifer o glinigau rheoli clefydau cronig, lle y caiff cleifion eu monitro ac y rhoddir cyngor iddynt ar reoli eu cyflyrau. Nod y gwasanaeth hwn yw lleihau'r galw am apwyntiadau gyda'r meddygon teulu a sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol. Mae hyn yn rhoi mwy o amser i'r meddygon teulu weld y cleifion hynny sydd â chyflyrau iechyd mwy cymhleth.

⁴ Mae gwasanaeth Fy Iechyd Ar-lein yn galluogi cleifion i drefnu apwyntiadau â'r meddyg teulu, archebu presgripsiynau amlroddadwy a diweddarau manylion personol ar-lein.

Caiff atgyfeiriadau eu cofnodi ar system Vision Medical Healthcare⁵ ac roedd yn cael ei harchwilio unwaith y mis i gadarnhau bod archwiliadau'n cael eu cwbhau. Tynnir sylw'r meddygon teulu yn y practis at unrhyw eithriadau ar yr adeg y cânt eu cofnodi.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd cyfleusterau'r practis i gleifion wedi'u lleoli ar y llawr daear. Roedd y practis yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn a'r rheini â phroblemau symudedd eraill.

Roedd gan y ddesg yn y brif dderbynfa adran lefel isel a fyddai'n galluogi unigolyn mewn cadair olwyn i siarad yn hawdd â staff y dderbynfa pe byddai angen gwneud hynny. Roedd y rhan fwyaf o'r drysau y tu mewn i'r adeilad yn ddigon llydan i allu defnyddio cadeiriau olwyn, sgwteri modur a chadeiriau gwthio yn ddiogel.

Nid oedd manau parcio ceir dynodedig ar gael i'r cleifion. Roedd llefydd parcio am uchafswm o awr o flaen y practis ar y brif ffordd. Yn ogystal, nid oedd fawr ddim lleoedd parcio ar gael yn yr ardal breswyl gyfagos. Dywedwyd wrthym y gallai'r cleifion barcio ym maes parcio gorsaf drenau gyfagos, a bod maes parcio aml-lawr tua phum i ddeg munud i ffwrdd ar droed. Fodd bynnag, nid oedd yr opsiynau hyn yn addas i rai cleifion ag anawsterau symudedd neu sy'n anhwylyd. Roedd safle bws y tu allan i'r practis.

Roedd toiledau dynion a merched ar y llawr daear gerllaw'r ardal aros, a oedd hefyd yn addas i bobl a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn. Roedd hyn yn hybu annibyniaeth cleifion â phroblemau symudedd.

Hawliau pobl

Roedd hawliau pobl yn cael eu hybu yn y practis ac roedd trefniadau ar waith i ddiogelu hawliau pobl i breifatrwydd. Gwelsom y staff yn trin y cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd. Dywedodd y staff wrthym hefyd y gallai

⁵ <https://www.visionhealth.co.uk/vision-medical-software/>

perthnasau neu ofalwyr aros gyda'r cleifion yn y practis a thrwy gydol eu hasesiad a'u triniaeth os oeddent yn dymuno.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Yn y dderbynfa a'r ardal aros, roedd blwch awgrymiadau gyda ffurflenni adborth a beiros lle gallai'r cleifion wneud sylwadau ac awgrymiadau llafar. Fel y nodwyd uchod, roedd system ar waith i gofnodi pryderon/cwynion llafar yn ogystal â chwynion ffurfiol neu ysgrifenedig.

Mae gweithdrefn gwyno'r practis a luniwyd ym mis Ionawr 2019 yn nodi dull y practis o ddelio â chwynion ac mae'n cynnwys sawl atodiad, gan gynnwys templedi a ffurflenni gwerthuso. Roedd y weithdrefn yn seiliedig ar broses Gweithio i Wella.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod grŵp cyfranogiad cleifion yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae pedwar claf o'r practis yn cymryd rhan ynddo ac yn ei fynychu'n rheolaidd. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob deufis ac mae rheolwr y practis a meddyg teulu o'r practis yn mynychu pob cyfarfod. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol (CVS)⁶ lleol a chynrychiolwyr eraill o'r trydydd sector yn eu mynychu gan gynnwys rheolwyr gofal sylfaenol a gweithwyr cymorth clwstwr. Caiff canfyddiadau'r cyfarfodydd hyn eu rhannu mewn cyfarfodydd clwstwr gan y cynrychiolydd o CVS.

⁶ <https://www.nptcvs.wales/>

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol.

Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg.

Roedd y cofnodion a oedd yn cael eu cadw yng nghofnodion meddygol y cleifion o safon dda.

Ystyriwyd bod y cofnod a ddefnyddiwyd i nodi pryderon y cleifion a'r staff yn enghraifft o arfer da.

Roedd camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r gwelliannau yr oedd eu hangen o'r arolygiad blaenorol.

Pa welliannau a nodwyd – Sicrwydd Uniongyrchol

Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwnaeth AGIC nodi mai prin oedd yr eitemau a oedd ar gael i helpu gyda dadebru pe bai argyfwng megis claf yn llewygu, anaffylacsis neu ataliad y galon. Yn ogystal, ni fu modd iddynt weld tystiolaeth i ddangos bod unrhyw aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant gloywi ar ddadebru yn ystod y 12 mis diwethaf, na bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant dadebru yn y gorffennol.

Roedd gan y practis ocsigen yn ogystal â mygydau wyneb i oedolion a mygydau pediatrig gyda bagiau cronfa ocsigen, er bod y silindr ocsigen bron yn wag, gyda mesurydd ar ben uchaf y parth coch.

Aethpwyd i'r afael â'n pryderon blaenorol ynglŷn â'r uchod o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys.

Roedd hi'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y byddai'n eu cymryd ar unwaith er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod meddyginiaeth a chyfarpar dadebru brys ar gael bob amser, a'u bod yn gweithio'n iawn ac yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng yn ymwneud â chlaf, boed yn oedolyn neu'n blentyn
- Bod pob aelod o'r staff clinigol yn cael hyfforddiant dadebru priodol gyda hyfforddiant gloywi blynyddol
- Bod pob aelod o'r staff anghlinigol yn cael hyfforddiant dadebru gyda hyfforddiant gloywi blynyddol

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 24 Ionawr 2019:

- Mae cyfarpar dadebru brys wedi cyrraedd gan gynnwys diffibriliwr â phadiau i oedolion a phlant yn ogystal â chyfarpar perthnasol arall. Disgwylir i'r ocsigen newydd gyrraedd ar 25 Ionawr 2019. Disgwylir i'r peiriant sugno a'r holl gyfarpar eraill gan gynnwys troli storio gyrraedd ar 24 Ionawr. Roedd algorithmau a siartiau meddyginiaethau ar gael ar 22 Ionawr
- Datblygwyd Gweithdrefn Gweithredu Safonol a thaenlen yn amlinellu'r disgwyladau o ran archwilio'r troli, a'r cyffuriau i'w llofnodi a'u dyddio bob yn ail wythnos
- Cafodd Gweithdrefnau Gweithredu Safonol newydd eu creu ar gyfer Cymorth Cynnal Bywyd Sylfaenol CPR
- Trefnwyd bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant dadebru preifat gan Lupus ar 20 Chwefror 2019. Mae taenlen ar gael yn cynnwys holl hyfforddiant y staff er mwyn sicrhau bod diweddariadau'n cael eu trefnu'n flynyddol
- Trefnwyd cyfarfod â'r tîm nyrsio cyfan a'r staff anghlinigol i drafod yr angen i ymgylfarwyddo â'r holl gyfarpar newydd ar 25 Ionawr 2019
- Ar 23 Ionawr, cafodd pob aelod o'r staff eu briffio gan y partneriaid o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Roedd y cyfarpar dadebru brys yn y practis yn gyflawn ac yn cydymffurfio â'r Canllawiau Dadebru ar gyfer lleoliadau gofal sylfaenol.

Cafodd gweithdrefn a thaenlen eu datblygu a'u llofnodi i ddangos eu bod yn cael eu harchwilio'n fisol. Fodd bynnag, dywedodd nyrs y practis fod y cyfarpar yn cael ei archwilio'n wythnosol cyn y clinig babanod, sef archwiliadau a brechiadau bob 8 wythnos i fabanod a phlant rhwng 0 a 5 oed. Gwnaethom atgoffa'r practis bod angen eu llofnodi i ddangos bod y gwiriadau hyn yn cael eu cwblhau'n wythnosol, yn unol â'r canllawiau uchod. Yn ystod ein cyfnod yn y practis, cafodd y protocol ar gyfer cofnodi ac archwilio cyfarpar ei ailysgrifennu i gyfeirio at wiriadau a lofnodir yn wythnosol.

Roedd y practis wedi drafftio a chyhoeddi gweithdrefnau newydd i bob aelod o'r staff gan gynnwys trin anaffylacsis a siart lif ar y camau i'w cymryd mewn argyfwng meddygol. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol ac anghlinigol yn y practis wedi mynychu cwrs hyfforddiant undydd a llwyddo ynddo ar ddadebru cardio-anadlol. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys defnyddio cyfarpar yn ddiogel a rolau a chyfrifoldebau. Roedd gan y practis nodyn atgoffa awtomatig i gwblhau'r hyfforddiant hwn yn flynyddol.

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod cyfleusterau sychu dwylo ar gael yn nhoiledau'r cleifion bob amser
- Bod gel neu ewyn diheintio dwylo ar gael yn gyfleus yn yr ardaloedd aros cyhoeddus.

Rheoli Meddyginiaethau

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod y broses ar gyfer paratoi presgripsiynau a diwygio presgripsiynau cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn cael ei hadolygu'n ofalus, a bod gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd y staff gweinyddol sy'n paratoi'r presgripsiynau yn cael eu hailasesu'n gadarn

- Bod proses archwilio yn cael ei chychwyn i sicrhau bod y broses bresgripsiynau yn cael ei gwneud yn gywir gan y tîm gweinyddol
- Bod tystiolaeth yn cael ei chyflwyno i AGIC i ddangos bod y Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd (HCSW) wedi cwblhau hyfforddiant yn y brifysgol ac i ddangos tystiolaeth bod ei chymhwysedd wedi'i gymeradwyo, er mwyn ei galluogi i ddarparu brechiadau a chynnal clinigau rheoli cyflyrau cronig
- Bod AGIC yn cael tystiolaeth o ddisgrifiad swydd y Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd, a ddylai roi manylion ei rôl wrth ymgymryd â thasgau uwch
- Bod AGIC yn cael tystiolaeth i ddangos bod gan y practis indemniad meddygol priodol ar gyfer y Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd mae'n ei chyflogi a bod yr yswiriant a ddarperir yn ddigonol ar gyfer cwmpas ei hymarfer.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant gofynnol ar lefel 1, 2, 3 neu ar lefel sy'n berthnasol i'w rôl. Rhaid iddynt hefyd ddarparu tystiolaeth i AGIC os yw'r hyfforddiant eisoes wedi'i gynnal; ar gyfer pob aelod o'r staff.

Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod digwyddiadau arwyddocaol a chanllawiau newydd bob amser yn cael eu rhannu â'r staff, a hynny mewn modd ffurfiol ac amserol.

Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 25 Mawrth 2019:

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Contractwr glanhau sydd hefyd yn ymdrin â'r holl nwyddau traul a gweithrediad cyfleusterau sychu dwylo'r cleifion. Rhoddwyd cyflenwad o dywelion papur i'r staff gweinyddol, ac anfonwyd neges e-bost i gyflew'r disgwyliad y cynhelir gwiriadau rheolaidd o'r cyfleusterau. Yn ogystal, ceir arwyddion newydd i gleifion eu defnyddio i roi gwybod os nad oes unrhyw gyfleusterau ar gael er mwyn i'r staff gael gwybod am hyn.

Archebwyd teclynnau darparu gel diheintio ac offer i'w gosod ar y wal. Mae ein handimon yn ymwybodol eu bod ar fin cyrraedd.

Rheoli Meddyginiaethau

Mae'r practis wedi trefnu diweddariad rheoli meddyginiaethau gan dechnegydd fferyllfa'r clwstwr, gyda hyfforddiant rhagnodi i glercod. Y dyddiad i'w gadarnhau.

Rydym wedi adolygu'r broses o gyflwyno ac adolygu presgripsiynau gan y meddygon teulu ar gyfer cleifion a ryddhawyd o'r ysbyty. Bydd staff dynodedig â'r hyfforddiant perthnasol yn gwneud diwygiadau yn ôl y cyfarwyddiadau i'r presgripsiwn newydd, ac yn ei atodi i'r crynodeb o gleifion a ryddhawyd o'r ysbyty, ac yn cyflwyno'r rhain ar wahân i'r presgripsiynau eraill ac ar amser gwahanol. Caiff pob presgripsiwn unigol ei archwilio gan y meddyg teulu ar y safle cyn i'r presgripsiwn gael ei roi i'r claf.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod ein Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd wedi rhoi unrhyw frechiadau y tu allan i gylch gwaith unrhyw Weithiwr Cymorth Gofal Iechyd profiadol, gan gynnwys brechiadau i fabanod mewn clinig, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, ar unrhyw adeg.

Ar hyn o bryd, mae ein Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd wedi'i hyswrio'n ddirprwyol o dan ein hyswriant fel Meddygon Teulu sy'n Bartneriaid. Byddwn yn parhau â'r drefn lle mae ein Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd yn gweithio heb fod yn annibynnol i gwblhau adolygiadau diabetes, asthma a COPD, gan drosglwyddo materion mwy cymhleth i'n nyrs practis a meddygon teulu sy'n bartneriaid i'w rheoli ymhellach.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Mae pob aelod o'r staff wedi'u cofrestru â chyfrifon hyfforddiant ar-lein a dyrranwyd un awr o amser datblygu personol iddynt gwblhau'r hyfforddiant gorfodol angenrheidiol ac yna hyfforddiant pellach o'u dewis.

Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol

Caiff pob digwyddiad arwyddocaol newydd ei gofnodi yn yr un modd â'r cwynion a byddwn hefyd yn cwblhau ac yn dosbarthu cofnodion ac yn cynnal cyfarfodydd clinigol bob yn ail wythnos, lle caiff digwyddiadau arwyddocaol eu trafod yn fanwl.

Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu

Rydym wedi gwneud cais ffurfiol am hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth a chanllawiau sy'n seiliedig ar ymarfer i ddangos ble y gallwn gael gafael ar hyfforddiant yn y maes hwn.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd cyfleusterau sychu dwylo yn nhoiledau'r cleifion ac roeddent yn gymysgedd o dywelion papur a pheiriannau sychu dwylo.

Roedd gel diheintio dwylo ar gael yn gyfleus ac yn gweithio yn yr ardaloedd aros cyhoeddus.

Rheoli Meddyginiaethau

Mae fferyllydd clwstrwr yn ymweld â'r practis un diwrnod yr wythnos ac mae ar gael yn ôl y gofyn. Ar hyn o bryd, mae'r broses o baratoi presgripsiynau ac addasu presgripsiynau'r cleifion ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn cael ei harolygu a'i harchwilio gan feddyg teulu. Mae'r weithdrefn bresgripsiynau hefyd yn cynnwys siart llif o'r camau i'w cymryd, gan gynnwys yr angen i feddyg teulu ei hadolygu.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y staff sy'n rhan o'r broses wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol gan y bwrdd iechyd yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael gan y fferyllydd clwstrwr.

Gwelsom ddisgrifiad swydd ar gyfer rôl y Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd, a oedd yn cyfeirio at y cymwyseddau a'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen. Yn ogystal â hyn, roedd llythyr yr uwch-bartner i AGIC yn cyfeirio at asesiad o'r cymwyseddau gan y meddyg teulu ac at y ffaith na fyddai'r Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd yn cwblhau unrhyw asesiadau nad ydynt wedi derbyn hyfforddiant llawn ar eu cyfer.

Nid yw'r Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd yn gweithio yn y practis bellach a dywedodd yr uwch reolwyr nad oes ganddynt unrhyw gynlluniau i gyflogi un yn y dyfodol. Atgoffwyd y practis bod angen iddynt sicrhau eu bod yn darparu'r hyfforddiant addas i'r Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd os byddant yn ei gyflogi

yn y dyfodol wrth gyflawni dyletswyddau ychwanegol. Dylid dogfennu a chofnodi'r hyfforddiant a'r cymwyseddau'n addas.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fatrics hyfforddiant y practis a nodwyd eu bod wedi cwblhau hyfforddiant diogelu hyd at lefel dau. Gwelsom sampl o gofnodion y staff hefyd a oedd yn cynnwys tystysgrifau i ddangos yr hyfforddiant hwn.

Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol

Roedd pob digwyddiad arwyddocaol⁷ yn cael ei gofnodi a'i storio'n ddiogel. Roedd rheolwr y practis yn gallu gweld y camau a gymerwyd. Trafodwyd y digwyddiadau arwyddocaol yn y cyfarfodydd clinigol bob deufis a gwelsom dystiolaeth o hyn mewn sampl o gofnodion cyfarfodydd.

Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu

Fel y nodwyd yn gynharach, gwelsom fatrics hyfforddiant y practis a nodwyd eu bod wedi cwblhau hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth. Gwelsom sampl o gofnodion y staff hefyd a oedd yn cynnwys tystysgrifau i ddangos yr hyfforddiant hwn.

Canfyddiadau ychwanegol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod hi'n hawdd iawn neu'n eithaf hawdd mynd i mewn i adeilad y practis.

Y bwrdd iechyd lleol a oedd yn berchen ar y safle ac roedd y practis wedi bod yn darparu gwasanaethau o'r fan hon ers pum mlynedd. Gwelsom fod y safle cyfan i'w weld yn lân ac yn drefnus iawn.

⁷ Mae digwyddiad arwyddocaol yn cyfeirio at unrhyw ddigwyddiad anfwriadol neu annisgwyl a arweiniodd at niwed i un claf neu fwy, neu a allai fod wedi arwain at hynny. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau na wnaeth arwain at niwed ond a allai fod wedi arwain at hynny neu ddigwyddiad y dylid bod wedi'i atal rhag digwydd.

Dywedodd uwch aelodau o'r staff fod trefniadau ar waith gyda dau bractis arall y grŵp, pe na allai'r practis ddefnyddio'r adeilad presennol. Roedd modd cael mynediad i'r system technoleg gwybodaeth (y system gyfrifiadurol) o bob un o'r tri safle. Yn ogystal, roedd modd ateb y llinellau ffôn ym mhob un o'r tri phractis a hefyd o gartref.

Roedd gan y practis gynllun parhad busnes yn cynnig canllawiau ar ymdrin â phroblemau eraill wrth ddarparu gwasanaethau a gafodd eu hadolygu'n ddiweddar yn ogystal â'r trefniadau uchod. Roedd y rhain yn cynnwys analluogrwydd y staff, diffyg cyflenwad dŵr ac ymatebion i ddigwyddiad arwyddocaol.

Atal a rheoli heintiau

Ni leisiodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y practis; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis yn lân iawn neu'n gymharol lân.

Roedd yr ardaloedd aros, y coridorau, yr ystafelloedd triniaeth a'r ystafelloedd ymgynghori i gyd yn lân. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol, fel menig a ffedogau tafladwy, ar gael i'r staff clinigol eu defnyddio er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd polisïau ar gyfer atal a rheoli heintiau a firsau a gludir yn y gwaed ar waith.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cofnodion unigol wedi cael eu cadw ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol mewn perthynas â'u statws imiwneiddio Hepatitis B.

Rheoli meddyginiaethau

Yn y sampl o gofnodion cleifion a adolygwyd gennym, gwelsom fod y rhesymau dros ragnodi meddyginiaeth wedi cael eu cofnodi. Mae cofnodi'r wybodaeth hon yn golygu ei bod yn haws gwneud penderfyniadau wrth adolygu triniaeth cleifion yn ystod ymgynghoriadau yn y dyfodol. Gwelsom ddull gweithredu cyson mewn perthynas â'r ddogfennaeth. Yn ogystal, roedd y cofnodion a adolygwyd yn cynnwys y rhesymau pam bod claf wedi rhoi'r gorau i gymryd ei feddyginiaeth. Yn yr un modd, mae cofnodi rhesymau o'r fath yn helpu i lywio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Gwelsom fod tymereddau'r oergelloedd a ddefnyddir i storio brechlynnau yn cael eu harchwilio'n gyson bob dydd. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod brechlynnau yn cael eu storio ar dymheredd priodol i wneud yn siŵr eu bod yn addas i'w defnyddio bob amser.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Cafodd meddyg teulu sy'n bartner ei benodi fel yr arweinydd diogelu ar gyfer oedolion a phlant yn y practis. Disgrifiwyd y trefniadau sydd ar waith i gofnodi a diweddarau gwybodaeth berthnasol am amddiffyn plant ar y system cofnodion cleifion electronig. Cawsom wybod, lle y bo'n gymwys, fod rhybuddion yn cael eu gosod ar y system cofnodion cleifion electronig, neu'n cael eu dileu, pan fyddai unrhyw fater amddiffyn plant yn cael ei nodi neu pan fyddai angen unrhyw ddiwygiadau.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Byddai'r practis yn rhoi gwybod i'r bwrdd iechyd am unrhyw ddigwyddiadau y gallai fod angen eu nodi ar Datix⁸ a byddai'r bwrdd iechyd yn eu cynnwys fel y bo'n briodol. Fel y disgrifir uchod, roedd digwyddiadau arwyddocaol yn cael eu cofnodi a'u trafod yn feunol, a chaiff pwyntiau dysgu eu rhannu yn y cyfarfodydd clinigol, ynghyd â digwyddiadau clinigol a chwynion a dderbyniwyd.

Mae'r practis yn sicrhau bod rhybuddion diogelwch perthnasol yn cael eu dosbarthu i aelodau o'r staff dros e-bost fel y gall clinigwyr ac arweinwyr tîm eu trosglwyddo i'w haelodau o staff.

Mae gan y practis fynediad i wasanaethau hyb gofal sylfaenol Castell-nedd, sy'n meddu ar statws 'ysgogi arloesi'⁹ y GIG. Mae'r hyb yng Nghastell-nedd yn cefnogi practisau meddygon teulu â'u hymdrechion i ymateb i alw cynyddol gan gleifion gan sicrhau eu bod yn cael mynediad o ansawdd. Mae'r hyb yn darparu amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys ffisiotherapi a gweithiwr cymorth iechyd meddwl o bwynt canolog yng Nghastell-nedd, yn ogystal â fferylllydd rhagnodi a thechnegydd sy'n gweithio mewn practisau ym mhob rhan o'r clwstwr.

Roedd meddygon teulu yn gallu atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol yn dilyn y cam brysbenneu a chomisiynwyd system apwyntiadau a chlinigol a rennir gan y

⁸ <https://www.datix.co.uk/en/about>

⁹<http://www.gofalsylfaenolun.cymru.nhs.uk/ysgogi-arloesi>

clwstwr er mwyn galluogi meddygon teulu i gofrestru cleifion yn uniongyrchol ar yr hyb. Mae hyn hefyd yn rhoi mynediad i'r ymarferwyr yn yr hyb i gofnodion clinigol cleifion.

Cadw cofnodion

Archwiliwyd sampl o gofnodion meddygol a oedd yn cwmpasu ymgynoriadau gan yr holl bartneriaid a'r prif locwm sy'n gweithio yn y practis yn rheolaidd. Roedd cofnodion yn cael eu cwblhau gan ddefnyddio system Vision ac roeddent yn ddarllenadwy. Roedd y rhan fwyaf o'r cofnodion o ansawdd da gan gynnwys hanes, archwiliadau ac ymchwiliadau perthnasol a chynllun y gallai locwm y practis ei ddilyn. Roedd un gyfres o gofnodion yn fwy cryno ac nid oedd bob amser yn cynnwys y manylion perthnasol.

Roedd y practis wedi datblygu cod Read¹⁰ yn ffurfiol yn unol â'r bwrdd iechyd lleol a chafodd ei ddiweddarau mewn ymateb i angen clinigol. Roedd y wybodaeth yn cael ei chrynhai gan reolwr y practis ac aelod o'r staff gweinyddol ac roedd y ddau ohonynt wedi derbyn hyfforddiant gan y bwrdd iechyd dros y pedwar mis diwethaf.

Dangosodd y cofnodion meddygol a archwiliwyd fod y practis wedi derbyn cydsyniad dilys lle y bo'n briodol. Yn ogystal â hyn, roeddent yn cynnwys gwybodaeth am yr holl ofal a'r triniaethau a roddwyd a'r canfyddiadau clinigol perthnasol yn ogystal â chanfyddiadau am driniaethau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis archwilio safon y dull a ddefnyddir i gadw cofnodion yn rheolaidd gan edrych ar gofnodion cleifion dienw i drafod y safonau.

¹⁰ Thesawrws codau o dermau clinigol yw Codau Read sydd wedi cael eu defnyddio yn y GIG ers 1985.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd y practis yn cael ei redeg yn dda gan reolwr y practis a oedd yn arwain y broses o reoli pob gweithgaredd anghlinigol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn gweithio yn y practis ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn i gyflawni eu rolau perthnasol.

Roedd y practis yn defnyddio dulliau e-gyfathrebu yn dda er mwyn sicrhau bod negeseuon yn cael eu trosglwyddo yn y ffordd gyflymaf a mwyaf diogel bosibl.

Roedd camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r gwelliannau yr oedd eu hangen o'r arolygiad blaenorol.

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Roedd yn ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod archwiliadau perthnasol yn cael eu cynnal a bod canlyniadau a champau gweithredu yn cael eu rhannu â'r tîm cyfan
- Bod cofnod o bob hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arall perthnasol yn cael ei gadw ar gyfer pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis. Dylai hyn gynnwys: Hyfforddiant diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg; dadebru, hyfforddiant diogelwch tân, GDPR, atal a rheoli heintiau, hyfforddiant brechu

ar gyfer y Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd a hyfforddiant rheoli clefydau cronig ar gyfer y Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd

- Bod gwybodaeth berthnasol o gyfarfodydd clwstwr yn cael ei rhannu â'r meddygon teulu sy'n bartneriaid yn y practis a staff y practis a dangos sut y caiff datblygiadau clwstwr eu cynnwys yng nghynllun datblygu'r practis
- Bod polisiau a gweithdrefnau'r practis yn cael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu trefniadau presennol y practis yn gywir, eu bod yn gyfredol a bod y fersiynau'n cael eu rheoli.

Y Gweithlu

Roedd yn ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod rhestr sefydlu drylwyr ar waith ac wedi'i chwblhau i sicrhau bod proses gyson yn cael ei dilyn mewn perthynas â phob aelod newydd o staff.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 25 Mawrth 2019:

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Caiff yr archwiliadau a gynhelir eu trafod yn y cyfarfodydd clinigol bob yn ail wythnos a'u hychwanegu at yr agenda, fel eitem sefydlog.

Mae cofnodion newydd o hyfforddiant gorfodol wedi'u datblygu gan ein Tîm AD. Caiff copïau o bob tystysgrif hyfforddiant eu sganio a'u hychwanegu at ffeiliau personol pob person ar y system ar-lein. Bydd ein Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd yn parhau i fynychu hyfforddiant allanol pan fydd y practis yn cynnal gwasanaethau cyfyngedig er mwyn sicrhau y bodlonir gofynion hyfforddiant gorfodol gan gynnwys rheoli heintiau a brechiadau a gyfeirir gan PGD, megis diweddariadau brechiadau fflw (ac eithrio plant). Yna caiff hyn ei gofrestru ar y porthol ar-lein.

Mae'r polisiau wedi'u diweddarau ynghyd â gwaith rheoli fersiynau ac maent wedi'u cyflwyno i'r bwrdd iechyd.

Caiff gwybodaeth y clwstwr, gan gynnwys cynllun datblygu'r clwstwr ei chadw mewn ardal gymunedol a hawdd ei chyrraedd yn swyddfa rheolwr y practis.

Caiff agendâu eu rhannu ar yr ap rhannu gwybodaeth a rheoli gwaith ar-lein, SLACK. Caiff hwn ei ddiweddarau'n fyw hefyd gan y clwstrwr. Mae gan bob aelod o'r staff fynediad i'r bwrdd perthnasol hwn ar ap Slack.

Y Gweithlu

Rydym wedi gofyn am gymorth cwmni AD i greu rhestr wirio sefydlu gadarn sy'n briodol i'n busnes. Caiff hon wedyn ei chwblhau gyda phob aelod o'r staff sydd wedi'i gyflogi ar hyn o bryd ac unrhyw staff newydd a gaiff eu recriwtio.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Dyweddodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod archwiliadau'n cael eu cwblhau a'u trafod yn y cyfarfodydd clinigol. Cafodd yr archwiliad rhagnodi ei ystyried fel rhan o'r archwiliad a nodwyd bod y canlyniadau'n cael eu hanfon dros e-bost i'r holl staff clinigol a'u trafod yn ystod y cyfarfodydd clinigol hefyd.

Gwelwyd sampl o gofnodion y staff a'r tystysgrifau a oedd yn dangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant gan gynnwys hyfforddiant ar ddiogelu, llywodraethu gwybodaeth a dadebru.

Nid oes cofnodion AD na gwasanaeth cymorth busnes ar gael eto. Unwaith y byddant wedi derbyn yr holl wybodaeth, bydd y system yn rhoi diweddariadau ar y dyddiadau y dylid cwblhau hyfforddiant ac yn cadw copiâu o dystysgrifau. Roedd gan y practis fatrics hyfforddiant i gofnodi'r hyfforddiant a gwblhawyd gan y staff. Byddai defnyddio matrices hyfforddiant wedi'i gwblhau a chadw copiâu o dystysgrifau hyfforddiant yn sicrhau y gellir trefnu unrhyw hyfforddiant gloywi a chwblhau'r hyfforddiant hwnnw cyn i'r dyddiad ddod i ben.

Roedd y practis yn rhan o rwydwaith Castell-nedd, sy'n rhan o Glwstr ehangach Castell-nedd Port Talbot. Dywedwyd wrthym fod y meddygon teulu a rheolwr y practis yn mynd i gyfarfodydd y clwstrwr lleol yn rheolaidd. Mae hyn yn helpu i hyrwyddo gwaith clwstrwr ac ymgysylltu yn ogystal â rhywfaint o ddysgu a rennir. Roedd rhwydwaith Castell-nedd yn cynnwys wyth practis cyffredinol sy'n cydweithio â phartneriaid o wasanaethau cymdeithasol, y sector gwirfoddol a'r bwrdd iechyd. Mae nodau'r rhwydwaith yn cynnwys datblygu'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir yn y gymuned a'u hansawdd a gwella'r dulliau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol gwahanol yn y sector iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol. Dywedwyd wrthym fod yr arweinydd tîm yn mynychu'r cyfarfodydd hyn o bryd i'w gilydd ar ran rheolwr y practis er mwyn dysgu mwy o'r clwstrwr.

Gwnaethom adolygu polisïau a gweithdrefnau'r practis a nodwyd bod pob un ohonynt wedi'u diweddarau a'u dyddio ym mis Ionawr 2019. Nodwyd gennym fod y practis yn casglu llofnodion gan y staff i ddangos eu bod wedi gweld y polisïau a'r gweithdrefnau hyn a'u bod yn eu deall.

Y Gweithlu

Roedd y practis wedi drafftio rhestr wirio i groesawu a sefydlu gweithwyr newydd. Roedd y practis hefyd yn bwriadu defnyddio'r system AD unwaith y bydd yr holl wybodaeth wedi'i lanlwytho er mwyn creu rhestr wirio sefydlu gadarn a phriodol. Dywedodd y practis y caiff y broses sefydlu ei chwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff a gyflogir er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y cymwyseddau perthnasol ac ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff wrth symud ymlaen.

Canfyddiadau ychwanegol

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Ar adeg ein harolygiad, roedd pedwar partner sy'n feddygon teulu yn berchen ar y practis a dau bractis cangen ac yn eu gweithredu. Roedd rheolwr practis llawn amser hefyd yn gweithio yno ac yn gyfrifol am reoli'r practis a'r ddau bractis arall o ddydd i ddydd. Roedd dirprwy reolwr wedi'i leoli ym mhreactis Alfred Street hefyd, yn ogystal ag yn y ddau bractis arall.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn eu gwaith a'u bod yn cael cefnogaeth dda gan yr uwch dîm a'r meddygon teulu sy'n bartneriaid.

Dywedodd yr aelodau eraill o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod gwybodaeth hefyd yn cael ei throsglwyddo yng nghyfarfodydd y practis, grŵp facebook caeëdig i staff gweinyddol a grŵp WhatsApp caeëdig¹¹ i feddygon a fferyllwyr, yn ogystal â'r dulliau a ddisgrifir uchod. Mae'r practis yn defnyddio grŵp WhatsApp ar gyfer clinigwyr er mwyn rhannu gwybodaeth o gyfarfodydd mewn amser real ac mewn ffordd y gellid chwilio am eiriau allweddol. Unwaith yr oedd y pryderon ynghylch diogelwch data ar y safle WhatsApp wedi'u datrys, teimlwyd y byddai hyn yn enghraifft o arfer da y gellid ei rannu mewn meysydd

¹¹ <https://www.whatsapp.com/business/>

eraill a'i ymestyn i nyrsys yn y practis o bosibl. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ystyried ychwanegu nyrsys i'r grŵp WhatsApp.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd staff y practis y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio eu priod rolau a chyfrifoldebau, a oedd yn cyfrannu at weithrediad cyffredinol y practis. Roedd y staff sy'n gweithio yn y practis hefyd yn gweithio'n hyblyg gan olygu y gallai'r staff weithio ar ran ei gilydd yn ystod absenoldebau gan leihau'r risg o darfu ar wasanaethau i'r cleifion. Roedd y staff hefyd yn gallu gweithio yn unrhyw un o'r tri practis y mae'r partneriaid yn eu rheoli ar fyr rybudd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod yn arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd neu'n rhai dirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau a wnaed gan y gwasanaeth ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar y meysydd penodol ar gyfer gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) sy'n berthnasol i'r meysydd hyn y byddwn yn canolbwyntio.

Yn ystod ein harolygiadau dilynol byddwn yn ystyried agweddau perthnasol ar y canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Darparu gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at unrhyw feysydd lle mae angen gwneud gwelliannau o hyd.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Insert name

Dyddiad arolygu: Insert date

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw sicrwydd uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Gofal Sylfaenol Alfred Street

Dyddiad arolygu: 9 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol: <ul style="list-style-type: none">Bod y wefan arfaethedig ar gyfer pob rhan o'r clwstwr yn cael ei gosod yn lle'r wefan bresennol, er mwyn sicrhau bod y manylion a ddarperir ar gyfer y practis yn gyfredol, yn gyflawn ac yn llawn gwybodaethBod taflen wybodaeth y practis i gleifion yn cael ei hadolygu ymhellach er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Ymgysylltu â chymorth clwstwr er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu'n gyflym ac yn effeithiol Mae taflen wybodaeth newydd wedi'i chreu i gynnwys yr addasiadau a gynghorwyd gan AGIC	Roisin Jones Roisin Jones	01/01/2020 Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gwybodaeth yn ymwneud â Gweithio i Wella, amseroedd agor y practis a'r clinig a'r gwasanaeth y tu allan i oriau.				
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r practis archwilio safon y dull a ddefnyddir i gadw cofnodion yn rheolaidd gan edrych ar gofnodion cleifion dienw i drafod y safonau.	3.5 Cadw cofnodion	Mae hyn wedi cael ei gwblhau bob deufis mewn cyfarfod clinigol.	Dr P Williams	Wedi'i gwblhau ac yn mynd rhagddo o hyd
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn ar y thema hon.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Tudalen 39 o 39